UWCHGYNHADLEDD SGILIAU'R DYFODOL 2026

YR HYN A GLYWSOM A'N CAMAU NESAF

ADRODDIAD AR ÔL YR UWCHGYNHADLEDD



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol 3
2. Ynglŷn â'r Uwchgynhadledd a'r Dystiolaeth 5
3. Allbynnau'r Gweithdy a Themâu Trafod a Hwyluswyd 6
4. Canlyniadau Slido....8
5. Adborth Ysgrifenedig a Chanfyddiadau Gwerthuso....10
6. Themâu Trawsbynciol....12
7. Camau Nesaf....13
Atodiad A – Ffynonellau Tystiolaeth....15
Atodiad B – Nodiadau Cryno'r Gweithdy....16
Atodiad C – Sefydliadau a Gynrychiolir yn yr Uwchgynhadledd 19
Atodiad D – Agenda 23

Dyddiad	8 Hydref 2026
Lleoliad	Stadiwm Swansea.com
Cynhelir gan	Llywodraeth Cymru

Crynodeb o'r dystiolaeth a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol, a sut byddant yn llywio cam nesaf y gwaith.

Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Yn Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol, daeth cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, undebau llafur, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i ystyried sut gall Cymru adeiladu system sgiliau sy'n ymateb i anghenion economaidd ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Mae'n gyfraniad at y sgwrs gyffredin genedlaethol am system sgiliau'r dyfodol, a daeth â sefydliadau a safbwyntiau ynghyd sydd â rôl yn y gwaith o lunio blaenoriaethau sgiliau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'n bennaf allbynnau'r gweithdy a nodiadau manwl, wedi'u cefnogi gan ganlyniadau Slido a ffurflenni adborth ysgrifenedig.

1.2 Allbynnau'r gweithdy a'r nodiadau manwl yw prif ffynhonnell y dystiolaeth y trafodaethau a hwyluswyd. Ar draws y chwe gweithdy, galwodd cynrychiolwyr am gynllun tymor byr, tymor canolig a thymor hir clir ar gyfer sgiliau, cydweithredu traws-sector cryfach, a gwell deallusrwydd o'r farchnad lafur. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am gymwysterau mwy ymatebol, sgiliau craidd a throsglwyddadwy cryfach, llwybrau cliriach ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr, ymatebion cryfach o ran partneriaethau rhanbarthol a lleol, a gwell mynediad, cyfranogiad a chynnydd. Gyda'i gilydd, roedd y blaenoriaethau hyn yn tynnu sylw at weledigaeth hirdymor ar y cyd ar gyfer y system sgiliau hyd at 2035. Roedd gofynion blaenoriaeth y gweithdy hefyd yn pwysleisio buddsoddiad hirdymor, cymhellion a chyfleoedd ar gyfer cyd-fuddsoddi mewn sgiliau, dull cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth, rhoi sylw ystyrlon i lais y gymuned a dysgwyr, ac integreiddio ystyriaethau'r Gymraeg ar draws y system sgiliau.

1.3 Mae canlyniadau Slido yn dangos pa faterion a blaenoriaethau a oedd wedi ennyn ymateb ar draws trafodaethau'r Uwchgynhadledd. Cafodd cyllid a buddsoddiad eu rhestru fel y risg fwyaf i anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol, ac yna cymhlethdod y system, ymgysylltiad ac arweinyddiaeth cyflogwyr, dysgu gydol oes ac ailsgilio, a phrinder gweithwyr. Ar draws yr ymatebion testun agored, galwodd cynrychiolwyr dro ar ôl tro am weithredu'n ddi-oed, rolau clir, canlyniadau mesuradwy a chynllun sy'n cysylltu blaenoriaethau uniongyrchol â diwygio tymor hwy.

1.4 Mae'r ffurflenni adborth ysgrifenedig yn darparu canfyddiadau gwerthuso a sylwadau ychwanegol ar y camau nesaf. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda 59 o 63 ffurflen yn graddio'r Uwchgynhadledd fel rhagorol neu dda. Atgyfnerthodd sylwadau ysgrifenedig yr angen i symud yn gyflym o drafodaeth i gamau dilynol, gyda rolau clir, camau nesaf ymarferol, cyfranogiad parhaus cyflogwyr, dysgwyr a phartneriaid, llwybrau symlach trwy'r system sgiliau, a gwell aliniad rhwng buddsoddiad ac anghenion y gweithlu.

1.5 Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at bedair blaenoriaeth eang ar gyfer gwaith yn y dyfodol: dull clir wedi'i flaenoriaethu ar gyfer rhagor o waith; rolau a chydgysylltu cliriach ar draws y system sgiliau; aliniad agosach rhwng buddsoddi, darpariaeth, gwybodaeth am sgiliau ac anghenion cenedlaethol, rhanbarthol a sector sy'n newid; gweledigaeth hirdymor ar y cyd ar gyfer sgiliau hyd at 2035, wedi'i chefnogi gan iaith gyffredin, deallusrwydd data, cyflawni rhanbarthol ac integreiddio'r Gymraeg.

Ffynonellau: Allbynnau gweithdy a nodiadau manwl; Adroddiad ar ganlyniadau pôl Slido a chrynodeb dadansoddeg, 8 Hydref 2026; Olrhain Adborth Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol, derbyniwyd 63 o ffurflenni.



Trafodaeth banel yn Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol 2026.

Prif ganfyddiadau

- Roedd allbynnau'r gweithdy'n galw am gynllun clir tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar gyfer sgiliau, wedi'i gefnogi gan gydweithrediad cryfach ar draws y sector a rolau cliriach.
- Pwysleisiodd y cynrychiolwyr yr angen i symud o drafodaeth i gamau dilynol, gydag arweinyddiaeth weladwy, camau nesaf ymarferol a ffyrdd o olrhain cynnydd.
- Cyllid a buddsoddiad yn ôl graddio Slido oedd y risg fwyaf i anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol, gyda chymhlethdod y system, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cyflogwyr yn dilyn.

- Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at yr angen am well gwybodaeth am y farchnad lafur, system fwy ymatebol ar gyfer cymwysterau, sgiliau craidd a throsglwyddadwy cryfach, llwybrau cliriach ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr, ac ymatebion cryfach o ran partneriaethau rhanbarthol a lleol.
- Roedd adborth ysgrifenedig yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda 59 o'r 63 ffurflen yn graddio'r Uwchgynhadledd fel rhagorol neu dda, ond hefyd yn ategu'r angen am weithredu cyflym.
- Cofnododd y polau hyder sgoriau cyfartalog o 6.4 gan 138 o ymatebion a 6.1 gan 97 o ymatebion. Dylid eu trin fel cipluniau o ddwy adeg yn y dydd, nid fel cymhariaeth uniongyrchol cyn ac ar ôl yr Uwchgynhadledd.

Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu

1.6 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylai cam nesaf y gwaith ganolbwyntio ar droi canfyddiadau'r Uwchgynhadledd yn gyfres glir o flaenoriaethau y gellir eu datblygu gyda phartneriaid. Y negeseuon cryfaf oedd yr angen am gynllun ymarferol ar gyfer sgiliau, cyfranogiad parhaus gan randdeiliaid, gwell defnydd o ddeallusrwydd sgiliau, ac ystyried sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel rhan o waith cynllunio ehangach yn hytrach nag fel mater ar wahân.

1.7 Mae'r adroddiad felly yn bwynt pwysig yn y sgwrs barhaus am y system sgiliau yng Nghymru yn y dyfodol. Efallai y bydd rhai materion a godwyd drwy'r Uwchgynhadledd yn addas i'w hystyried yn gynt, tra bydd angen rhagor o drafod, datblygu a gweithio mewn partneriaeth dros gyfnod hirach ar eraill.

2. Ynglŷn â'r Uwchgynhadledd a'r Dystiolaeth

Pwrpas

2.1 Sefydlwyd yr Uwchgynhadledd i gynhyrchu syniadau ymarferol ac i lywio trafodaeth ar y galw am sgiliau yn y dyfodol, blaenoriaethau buddsoddi, ymgysylltiad cyflogwyr, gwybodaeth am sgiliau a chynllunio, cyfranogiad a chynnydd, a thrawsnewid y gweithlu.

2.2 Cyn yr Uwchgynhadledd, rhoddwyd pecyn briffio i'r cynrychiolwyr yn nodi cyd-destun y digwyddiad, trosolwg o'r system sgiliau bresennol yng Nghymru a gwybodaeth i gefnogi trafodaethau'r diwrnod.

2.3 Roedd y pecyn i'r mynychwyr yn rhan o'r cyd-destun a'r fframwaith tystiolaeth ar gyfer yr Uwchgynhadledd. Roedd yn darparu cefndir cyffredinol a phwrpas y digwyddiad i'r mynychwyr, y dystiolaeth sy'n bodoli ar yr heriau o ran sgiliau cyfredol a rhai'r dyfodol, ffurf arfaethedig y gweithdy a chwestiynau i lywio sgyrsiau ar flaenoriaethau, camau gweithredu ymarferol a newid systemau yn y dyfodol.

Cyfraniad Slido

2.4 Cofnododd Slido 180 o gynrychiolwyr gweithredol a 760 o bleidleisiau ar draws saith o bolau, gyda chyfartaledd o 109 o bleidleisiau fesul pôl. Roedd y pôl yn cynnwys cwmwl

geiriau, dwy sgôr hyder, ymarfer graddio a chwestiynau testun agored ar flaenoriaethau'r panel, gweithredu dros y 12 mis nesaf a'r ymrwymiad pwysicaf sy'n deillio o'r Uwchgynhadledd.

Ffynhonnell: Crynodeb o ddadansoddeg Slido ac adroddiad o ganlyniadau'r pôl.

Y sylfaen dystiolaeth

2.5 Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd dair ffynhonnell dystiolaeth ategol:

- Allbynnau gweithdy a nodiadau manwl, yn darparu'r brif ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer pob trafodaeth a hwyluswyd.
- Canlyniadau Slido yn dangos y materion a'r blaenoriaethau a oedd yn ennyn ymateb ar draws yr ystafell ehangach.
- Ffurflenni adborth ysgrifenedig, yn darparu gwerthusiad a sylwadau ychwanegol ar y camau nesaf.

2.6 Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r prif themâu o dystiolaeth yr Uwchgynhadledd, gan gyfuno trafodaethau'r gweithdy, canlyniadau Slido ac adborth ysgrifenedig.

2.7 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r safbwyntiau a'r blaenoriaethau a rannwyd drwy'r Uwchgynhadledd. Nid yw'n nodi polisïau neu ymrwymiadau newydd Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'n cyfuno tystiolaeth y diwrnod i helpu i lywio rhagor o drafodaethau a gwaith gyda phartneriaid yn y dyfodol.

Defnyddio a dehongli'r dystiolaeth

2.8 Dylid darllen y dystiolaeth fel crynodeb o ymgysylltiad yn hytrach na bod yn arolwg cynrychioliadol o Gymru gyfan. Mae nodiadau gweithdy, ymatebion Slido ac adborth ysgrifenedig yn dangos y blaenoriaethau a'r pryderon a godwyd gan bobl a gymerodd ran yn yr Uwchgynhadledd. Maent yn fwyaf defnyddiol ar gyfer nodi themâu ailadroddus, blaenoriaethau a rennir a meysydd lle gallai fod angen rhagor o drafodaethau.

3. Allbynnau'r Gweithdy a Themâu Trafod Hwyluswyd

3.1 Y chwe gweithdy a hwyluswyd oedd prif ffynhonnell tystiolaeth trafodaethau'r Uwchgynhadledd. Amlinellwyd yr argymhellion, y gofynion blaenoriaeth a chamau gweithredu cynnar posib a gafodd eu codi yn y grwpiau trafod ac sy'n sylfaen i'r themâu ehangach a nodwyd yn yr adroddiad hwn.



Trafodaeth gweithdy yn Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol 2026.

3.2 Defnyddiodd yr Uwchgynhadledd fethodoleg gweithdy wedi'i hwyluso a gynlluniwyd i droi tystiolaeth a rennir yn flaenoriaethau ymarferol. Arhosodd y cynrychiolwyr yn yr un grŵp gweithdy ar draws sesiynau'r bore a'r prynhawn, gan ystyried yn gyntaf y prif heriau sy'n wynebu'r system sgiliau ac yna datblygu ymatebion ymarferol, gofynion blaenoriaeth a chamau gweithredu cynnar posib. Roedd pob grŵp wedi'i strwythuro o amgylch thema benodol a chyfres o gwestiynau trafod, gydag allbynnau wedyn yn cael eu cyfuno fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar ôl yr Uwchgynhadledd.

Gweithdy	Ffocws y bore	Ffocws y prynhawn
1	Ysgogwyr sgiliau presennol ac yn y dyfodol	Camau gweithredu'r llywodraeth
2	Y galw am sgiliau a llais cyflogwyr	Camau gweithredu cyflogwr
3	Cyflenwad sgiliau ac ymateboldeb systemau	Gweithredoedd darparwr
4	Mynediad a Dysgu Gydol Oes	Camau gweithredu rhanbarthol a lleol ar gyfer partneriaethau
5	Arwain a chydgysylltu systemau	Camau gweithredu dysgwyr a'r gweithlu a diwygio'r system
6	Gweledigaeth sgiliau i Gymru 2035	Gweledigaeth sgiliau yn y dyfodol a blaenoriaethau cenedlaethol

3.3 Ar draws y gweithdai, galwodd cynrychiolwyr am gyfeiriad strategol cliriach gan y llywodraeth, cydweithredu cryfach ar draws sectorau, a llwybr ymarferol o dystiolaeth ac ymgysylltu sy'n arwain at weithredu. Roedd argymhellion cyffredin yn cynnwys cynllun tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar gyfer sgiliau; gwybodaeth ystwyth a hygyrch am y farchnad lafur; rôl gydgysylltu a mapio cryfach ar gyfer y llywodraeth; system gymwysterau mwy ymatebol; sgiliau craidd a throsglwyddadwy cryfach; llwybrau cliriach ar gyfer dysgwyr a

chyflogwyr; cysylltiadau cryfach rhwng addysg a diwydiant, gan gynnwys cyfranogiad cyflogwyr mewn cynllunio'r gweithlu a datblygu sgiliau, mwy o fynediad at brofiad gwaith ystyrlon, cymwysterau modiwlaidd a micro-gymwysterau, gwybodaeth gliriach i ddysgwyr, teuluoedd, cymunedau a busnesau bach a chanolig, a gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau gan gynnwys trafnidiaeth, costau, hyder a mynediad at ddysgu hyblyg.

3.4 Mae gofynion blaenoriaeth y gweithdy yn atgyfnerthu'r angen am fuddsoddiad hirdymor, cymhellion a chyfleoedd ar gyfer cyd-fuddsoddi mewn sgiliau, gwybodaeth am sgiliau ymatebol, gweledigaeth strategol gynhwysfawr i Gymru, a dull cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth. Ychwanegodd Gweithdy 6 bwyslais arbennig ar ddysgu gydol oes, cynllunio dan arweiniad data, symleiddio systemau ac ystyriaethau'r Gymraeg. Dadleuodd y cynrychiolwyr fod angen sylfaen dystiolaeth gliriach a rennir ar Gymru mewn perthynas ag anghenion sgiliau presennol ac yn y dyfodol, llwybr symlach drwy'r ddarpariaeth bresennol, a gweledigaeth 2035 sy'n ymwreiddio ystyriaethau'r Gymraeg ar draws meysydd addysg a hyfforddiant ac yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu â chyflogwyr.

3.5 Mae'r nodiadau a awgrymwyd ar gyfer gweithredu cynnar yn ychwanegu rhagor o bwyslais ar gynnal momentwm, ymgysylltu strwythuredig parhaus â rhanddeiliaid, cryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, cynyddu llwyddiannau presennol, ymgysylltu â dysgwyr yn gynt trwy ysgolion, cydnabod rôl datblygiad y blynyddoedd cynnar, cadw capasiti'r gweithlu lle bo hynny'n bosibl, alinio polisi sgiliau â thwf economaidd, ac adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng diwydiant, addysg a'r trydydd sector.

4. Canlyniadau Slido

Y prif risgiau

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr raddio'r materion roeddent yn ystyried eu bod yn peri'r risg fwyaf i anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r canlyniadau yn eu trefn, gan adlewyrchu'r flaenoriaeth gymharol a roddir i bob mater gan ymatebwyr.

Safle	Mater
1	Cyllid a buddsoddi
2	Cymhlethdod y system
3	Ymgysylltu ac arweinyddiaeth cyflogwyr
4	Dysgu gydol oes ac ailsgilio
5	Prinder gweithwyr
6	Newidiadau Deallusrwydd Artiffisial a thechnoleg
7	Anghydraddoldebau rhanbarthol
8	Sgiliau, gwybodaeth a rhagfynegi

Ffynhonnell: Pôl graddio Slido: Pa fater sy'n peri'r risg fwyaf i anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol? Dangosir y canlyniadau mewn trefn raddedig.

Galwad glir am weithredu a chamau dilynol

4.1 Y neges gryfaf a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y dylai'r Uwchgynhadledd arwain at gamau dilynol ymarferol. Yn yr ymatebion wedi'u codio ar yr ymrwymiad pwysicaf sy'n deillio o'r Uwchgynhadledd, gweithredu, cyflawni ac atebolrwydd oedd y thema amlycaf. Gofynnodd cynrychiolwyr am gynllun clir, gweithredu cyflym, rolau clir a ffyrdd o olrhain cynnydd. Mae llawer o ymatebion yn cyfuno awydd am gynnydd ar unwaith gyda chydnabyddiaeth y bydd rhai diwygiadau yn gofyn am waith a buddsoddiad parhaus dros y tymor hwy.

Cyllid, buddsoddiad a gwerth

4.2 Cyllid a buddsoddiad oedd y flaenoriaeth feintiol gliriaf. Roedd ymatebion testun agored yn galw am fuddsoddiad priodol a hirdymor, cymorth ar gyfer darpariaeth sydd eisoes yn gweithio, alinio cyllid yn well ag anghenion y gweithlu ac anghenion economaidd, a mwy o eglurder ynghylch ble gall adnoddau cyfyngedig gael yr effaith fwyaf.

System symlach wedi'i chydlynu'n well

4.3 Disgrifiodd y cynrychiolwyr dirwedd gymhleth sy'n cynnwys seilos, dyblygu, cymorth tameidiog a llwybrau aneglur drwy'r system. Roedd ymatebion yn galw am gydgysylltu cryfach ar draws y llywodraeth a phartneriaid cyflawni, gwell cysylltiadau rhwng cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a'r sector, a llwybrau symlach i gyflogwyr a dysgwyr sy'n ceisio cymorth.

Cyflogwyr, dysgwyr a rhannu cyfrifoldeb

4.4 Roedd llais y cyflogwr yn amlwg, yn enwedig mewn perthynas â busnesau bach a chanolig, cynllunio'r gweithlu, buddsoddi mewn hyfforddiant, cyd-gynllunio darpariaeth, profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau. Ar yr un pryd, pwysleisiodd cynrychiolwyr bwysigrwydd dewis i ddysgwyr, cynrychiolaeth dysgwyr a chanlyniadau cymdeithasol ehangach. Y neges gyffredinol oedd rhannu cyfrifoldeb yn hytrach na pherchnogaeth gan unrhyw ran unigol o'r system.

Llwybrau hyblyg a dysgu gydol oes

4.5 Roedd yr ymatebion yn cefnogi llwybrau galwedigaethol a thechnegol cryfach, dysgu mwy hyblyg a modiwlaidd, cyflawni seiliedig ar waith a chyfleoedd i ailhyfforddi drwy gydol bywyd gwaith. Cododd y cynrychiolwyr sefyllfa dysgwyr iau, oedolion sydd eisoes mewn gwaith, gweithwyr hŷn, pobl y tu allan i addysg neu gyflogaeth, a'r rhai yr effeithir arnynt gan gyflyrau iechyd neu dechnoleg sy'n newid.

Sgiliau Cymraeg a dwyieithog

4.6 Cododd y cynrychiolwyr y mater o ddilyniant o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg a gwaith pellach a thrydyddol, y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gofynion gweithlu dwyieithog a'r angen i ymwreiddio ystyriaethau Cymraeg drwy gydol y broses o gynllunio sgiliau yn hytrach na'u trin fel elfen ychwanegol.

Cynhwysiant a mynediad

4.7 Fe wnaeth yr ymatebion dynnu sylw at rwystrau gan gynnwys iechyd, hyder, gofal plant, trafnidiaeth, gwledigrwydd, anabledd, anghenion dysgu ychwanegol a chost cyfranogiad. Fe wnaethant alw hefyd am lais cryfach i ddysgwyr a sicrhau bod dysgu ar gael mewn gweithleoedd a chymunedau yn ogystal â sefydliadau.

Deallusrwydd Artiffisial, technoleg a newid yn y gweithlu

4.8 Trafodwyd Deallusrwydd Artiffisial fel cyfle a ffynhonnell o darfu. Gofynnodd cynrychiolwyr sut gall darpariaeth ddal i fyny â newid technolegol, sut gall dysgwyr a gweithwyr ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn ddiogel ac yn effeithiol, a sut gall darparwyr a hyfforddwyr gynnal gallu cyfredol.

Tystiolaeth a gwybodaeth am sgiliau

4.9 Roedd ymatebion yn galw am ddarlun cliriach o anghenion y gweithlu presennol a'r dyfodol yn ôl sector a rhanbarth. Roedd gwybodaeth am y farchnad lafur, rhagfynegi, rhannu data a thrawsnewid tystiolaeth yn benderfyniadau buddsoddi a darpariaeth yn themâu ailadroddus.

Hyder a disgwyliadau

4.10 Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr yn gyntaf: “Pa mor hyderus ydych chi y gall Cymru adeiladu system sgiliau sy'n addas ar gyfer anghenion economaidd a gweithlu yn y dyfodol?" Cofnododd y pôl hwn sgôr gyfartalog o 6.4 o 138 o ymatebion. Gofynnodd y pôl diweddarach: “Nawr, pa mor hyderus ydych chi y gall Cymru adeiladu system sgiliau sy'n addas ar gyfer anghenion economaidd a gweithlu yn y dyfodol?" Cofnododd sgôr gyfartalog o 6.1 o 97 o ymatebion. Oherwydd bod niferoedd yr ymatebion yn amrywio ac nad oedd ymatebion unigol yn cael eu holrhain, dylid darllen y canlyniadau fel cipluniau ar ddwy adeg yn y dydd, nid fel tystiolaeth bod yr Uwchgynhadledd wedi tanseilio hyder.

4.11 Y ffordd orau o ddarllen y sgoriau yw eu darllen ochr yn ochr â'r dystiolaeth ansoddol, sy'n dangos awydd am newid a phryder am gyllid, cymhlethdod, cyflymder cyflawni a chamau dilynol.

Ffynhonnell: Polau hyder Slido.

5. Adborth Ysgrifenedig a Chanfyddiadau Gwerthuso

5.1 Cyflwynwyd chwe deg tri o ffurflenni adborth gan gynrychiolwyr. Mae'r canlyniadau'n darparu darlun gwerthuso llawnach a dylid eu darllen ynghyd â chanfyddiadau Slido a thystiolaeth o'r gweithdai.

- Sgôr gyffredinol ardderchog neu dda o'r Uwchgynhadledd: 59 o 63 (93.7%).
- Cytuno neu gytuno'n gryf bod yr Uwchgynhadledd wedi helpu i nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu: 44 o 63 (69.8%).

- Cytuno neu gytuno'n gryf ei bod yn galluogi gwahanol safbwyntiau ac ymgysylltiad: 60 o 63 (95.2%).
- Ie i ymgysylltiad yn y dyfodol: 48 o'r 57 ffurflen gydag ymateb wedi'i gofnodi (84.2%).

Themâu o adborth ysgrifenedig

5.2 Mae'r sylwadau ysgrifenedig yn atgyfnerthu prif negeseuon Slido gan ychwanegu mwy o sylwedd at yr hyn y mae cynrychiolwyr yn dymuno ei weld yn digwydd nesaf. Y thema gryfaf oedd yr angen i symud yn gyflym o drafodaeth i gamau dilynol. Dro ar ôl tro, defnyddiodd ymatebwyr iaith fel gweithredu, cyflymder, rhoi ar waith, camau dilynol a chamau nesaf clir, gyda sawl un yn gofyn am gynllun ymarferol sy'n gwahaniaethu rhwng camau gweithredu cynnar posib â newidiadau tymor canolig a'r tymor hir.

5.3 Ail thema gref oedd yr angen am arweinyddiaeth, cydgysylltu ac atebolrwydd cliriach ar draws y system sgiliau. Roedd ymatebion ysgrifenedig yn galw am weithio cryfach ar draws y llywodraeth, gwell aliniad rhwng blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a sector, a llwybrau symlach i gyflogwyr, darparwyr a dysgwyr ymgysylltu â'r system. Roedd sawl sylw yn crybwyll elfennau tameidiog, dyblygu a'r angen i leihau cymhlethdod, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig.

5.4 Roedd llais y cyflogwr a gweithio mewn partneriaeth yn amlwg hefyd. Roedd ymatebwyr am i gyflogwyr, cyrff y diwydiant, darparwyr addysg a hyfforddiant, undebau llafur, y trydydd sector, cymunedau a dysgwyr barhau i gymryd rhan y tu hwnt i'r Uwchgynhadledd. Roedd llawer o sylwadau'n cefnogi ffyrdd strwythuredig o barhau i ymgysylltu, cynnal momentwm a helpu i droi trafodaeth yr Uwchgynhadledd yn gynigion ymarferol.

5.5 Ymddangosodd cyllid a buddsoddiad drwy gydol yr adborth ysgrifenedig, fel pryder o ran cyflawni ac fel rhywbeth a fyddai'n ei alluogi. Gofynnodd ymatebwyr am fuddsoddiad mewn darpariaeth y mae'n hysbys ei fod yn gweithio, cymorth ar gyfer prentisiaethau a recriwtio lefel mynediad, adnoddau ar gyfer ailsgilio ac uwchsgilio, a mwy o sicrwydd lle mae angen cynllunio tymor hwy. Roedd rhai sylwadau'n pwysleisio pwysigrwydd defnyddio enghreifftiau cadarnhaol presennol hefyd yn hytrach na dechrau eto.

5.6 Roedd yr adborth yn tynnu sylw hefyd at feysydd penodol ar gyfer cynllunio sgiliau yn y dyfodol, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar a sgiliau craidd, llwybrau galwedigaethol a thechnegol, prentisiaethau, profiad gwaith, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mudo fel rhan o'r ymateb i brinder uniongyrchol, anghenion sgiliau sector a rhanbarthol, a phwysigrwydd cysylltu polisi sgiliau â blaenoriaethau economaidd, iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chyflogaeth ehangach.

5.7 Ar y cyfan, mae'r adborth ysgrifenedig yn dangos cefnogaeth gref i ymgysylltiad parhaus, gyda disgwyliad clir y dylai'r Uwchgynhadledd arwain at gamau dilynol gweladwy. Mae'r sylwadau'n awgrymu bod cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu, gan fod eisiau deall hefyd sut y bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio a beth fydd yn digwydd nesaf.

Ffynhonnell: Traciwr Adborth Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol 1.xlsx, derbyniwyd 63 o ffurflenni.

6. Themâu Trawsbynciol

6.1 Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at gyfres o themâu trawsbynciol ar gyfer gwaith ar y system sgiliau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r themâu hyn yn cwmpasu allbynnau a nodiadau manwl y gweithdai, canlyniadau ac adborth ysgrifenedig Slido, ac yn tynnu sylw at feysydd lle'r oedd cynrychiolwyr yn gweld bod yr angen am alinio, cydgysylltu a gweithredu parhaus ar ei gryfaf.

Cyfeiriad, cyflawni a gweledigaeth 2035

6.2 Neges gyson ar draws y dystiolaeth oedd bod angen llwybr clir o ymgysylltiad i gyflawni. Roedd cynrychiolwyr eisiau cynllun tymor byr, tymor canolig a thymor hir sy'n nodi gweithredu cynnar, diwygio tymor canolig a gweledigaeth a rennir ar gyfer 2035. Atgyfnerthodd Gweithdy 6 y ffaith y dylai'r weledigaeth hon fod yn ddigon syml i gyfathrebu'n glir, darparu cyfeiriad ar draws addysg, hyfforddiant a dysgu yn y gweithle, a dangos sut gall llywodraeth, cyflogwyr, darparwyr, unigolion a chymunedau gyfrannu.

Cyllid, buddsoddi a chymhellion

6.3 Roedd cyllid a buddsoddiad yn amlwg ym mhob un o'r tair ffynhonnell dystiolaeth. Roedd Slido yn eu graddio fel y risg fwyaf i anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol, tra bod gweithdai ac adborth ysgrifenedig yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi hirdymor, capasiti cynaliadwy, buddsoddiad cyflogwyr a chyfleoedd ar gyfer cyd-fuddsoddi, a gwell aliniad rhwng penderfyniadau ariannu a blaenoriaethau'r gweithlu.

Sgiliau, gwybodaeth a chynllunio wedi'i arwain gan ddata

6.4 Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw bod angen gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n fwy ystwyth a hygyrch ac a rennir yn fwy. Roedd y cynrychiolwyr yn ystyried yr wybodaeth hon yn bwysig ar gyfer llywio buddsoddiad, darpariaeth, gwybodaeth am yrfaoedd a dewisiadau polisi yn y dyfodol, gan bwysleisio'r angen i'w chyflwyno mewn ffordd y gall dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr ei defnyddio.

Llais cyflogwr, dysgwyr a chymunedau

6.5 Pwysleisiodd y cynrychiolwyr y ffaith y dylai'r system sgiliau gael ei llunio gan y rhai sy'n ei defnyddio a'i chyflawni. Roedd llais y cyflogwr, llais y dysgwr, mewnwelediad y gymuned, safbwyntiau undebau llafur, arbenigedd darparwyr a phrofiad y trydydd sector oll yn ymddangos yn y dystiolaeth. Y neges gyffredinol oedd un o rannu cyfrifoldeb, gyda mecanweithiau cryfach yn angenrheidiol ar gyfer cadw'r lleisiau hyn yn rhan o'r broses wrth i waith yn y dyfodol ddatblygu ac er mwyn galluogi cyflogwyr, darparwyr a'r llywodraeth i gydweithio ar nodi anghenion o ran sgiliau, cynllunio'r gweithlu a datblygu sgiliau.

Cyflawni partneriaeth ranbarthol a lleol

6.6 Roedd cyflawni rhanbarthol a lleol yn thema drawsbynciol gref. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at rôl Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, darparwyr addysg, cyflogwyr lleol a phartneriaid cymunedol wrth drosi blaenoriaethau cenedlaethol yn weithredu ymarferol.

Roedd yn tynnu sylw hefyd at yr angen i chwalu seilos sefydliadol a chryfhau cydweithredu ar draws rhanbarthau.

Cyfranogiad, cynnydd a dysgu gydol oes

6.7 Fe wnaeth tystiolaeth yr Uwchgynhadledd atgyfnerthu pwysigrwydd sgiliau craidd a throsglwyddadwy, dysgu gydol oes, ailsgilio oedolion, llwybrau galwedigaethol a thechnegol, profiad gwaith, prentisiaethau a llwybrau cynnydd sy'n haws i ddysgwyr, teuluoedd, cymunedau a busnesau bach a chanolig eu deall. Tynnodd y cynrychiolwyr sylw hefyd at rwystrau i gyfranogiad, gan gynnwys iechyd, cyfrifoldebau gofalu, trafnidiaeth, gwledigrwydd, hygyrchedd, hyder a chost, ochr yn ochr â'r angen am ddarpariaeth hyblyg sy'n cefnogi oedolion, gweithwyr hŷn a'r rhai y tu allan i addysg neu gyflogaeth. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd wrth helpu dysgwyr a theuluoedd i ddeall y llwybrau sydd ar gael.

Sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

6.8 Codwyd ystyriaethau Cymraeg drwy dystiolaeth y gweithdai, ymatebion Slido ac adborth ysgrifenedig. Mae'r dystiolaeth yn dangos yr angen i ymwreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y gwaith o gynllunio sgiliau prif ffrwd, nid fel maes ar wahân. Mae hyn yn cynnwys llwybrau o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg bellach a thrydyddol, hyfforddiant a gwaith, yn ogystal â chyfranogiad cyflogwyr, gwaith cynllunio'r gweithlu a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol.

Technoleg a thrawsnewid y gweithlu

6.9 Nodwyd Deallusrwydd Artiffisial a newid technolegol fel cyfleoedd a risgiau. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at yr angen am ddarpariaeth a all gadw i fyny â newid yn y gweithle, cefnogi defnydd diogel ac effeithiol o Ddeallusrwydd Artiffisial, a galluogi uwchsgilio ac ailsgilio amserol i ddysgwyr, gweithwyr, darparwyr a chyflogwyr.

7. Camau Nesaf

7.1 Bydd tystiolaeth yr Uwchgynhadledd yn helpu i lywio cam nesaf y gwaith ar y system sgiliau yng Nghymru. Bydd y ffocws cyntaf ar ddefnyddio'r themâu a nodwyd trwy dystiolaeth yr Uwchgynhadledd i gefnogi rhagor o drafodaethau a datblygiadau gyda phartneriaid.

7.2 Mae'r Uwchgynhadledd yn gychwyn ar gam nesaf y sgwrs yn hytrach na diwedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth ochr yn ochr â gweithgarwch polisi a rhaglenni presennol, a bydd yn parhau i gydweithio â phartneriaid wrth i'r cam nesaf ddatblygu.

7.3 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif themâu i'w dilyn a awgrymir gan y dystiolaeth:

Thema i'w dilyn	Beth mae hyn yn ei olygu	Ffynhonnell y dystiolaeth
Datblygu safbwynt a rennir ar flaenoriaethau ar gyfer sgiliau.	Defnyddio tystiolaeth yr Uwchgynhadledd i nodi'r materion sydd angen eu trafod ymhellach a'u datblygu'n ymarferol.	Gweithdai, Slido ac adborth ysgrifenedig.
Egluro rolau ar draws y system sgiliau.	Archwilio sut gall llywodraeth, cyflogwyr, darparwyr, dysgwyr, undebau llafur a phartneriaid oll gyfrannu at waith yn y dyfodol.	Gofynion blaenoriaeth y gweithdai ac adborth ysgrifenedig.
Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid.	Cynnal momentwm trwy gynnwys partneriaid wrth i themâu o'r Uwchgynhadledd gael eu datblygu ymhellach.	Nodiadau gweithdai a sylwadau adborth.
Gwella'r defnydd o ddeallusrwydd sgiliau.	Cefnogi dealltwriaeth well o anghenion sgiliau cenedlaethol, rhanbarthol a sector i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol.	Allbynnau gweithdai a themâu testun agored Slido.
Adlewyrchu themâu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, cynhwysiant a dysgu gydol oes.	Sicrhau bod y materion trawsbynciol hyn yn cael eu hystyried fel rhan o waith cynllunio ehangach o ran sgiliau a thrafodaethau dilynol.	Gweithdy 6, ymatebion Slido ac adborth ysgrifenedig.

Atodiad A – Ffynonellau Tystiolaeth

A.1 Mae'r atodiad hwn yn rhestru'r prif ddeunyddiau ffynhonnell a ddefnyddiwyd i baratoi'r adroddiad. Mae'n nodi'r dystiolaeth a ystyriwyd; nid yw'n atgynhyrchu'r dogfennau ffynhonnell yn llawn.

- Adroddiad canlyniadau pôl Slido ar gyfer Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol, 8 Hydref 2026.
- Adroddiad cryno dadansoddeg Slido.
- Traciwr Adborth Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol, derbyniwyd 63 o ffurflenni.
- Nodiadau cryno'r gweithdy sy'n cwmpasu argymhellion, gofynion blaenoriaeth a chamau gweithredu cynnar a awgrymwyd o chwe thrafodaeth a hwyluswyd.
- Pecyn Cynrychiolwyr Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol, a gyflwynwyd i gynrychiolwyr cyn yr Uwchgynhadledd, yn cynnwys tystiolaeth o'r farchnad lafur, cyd-destun trafodaethau, themâu a chwestiynau'r gweithdai, ac agenda'r Uwchgynhadledd.



Cefin Campbell AS, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ac Addysg Drydyddol, yn traddodi'r sylwadau agoriadol yn Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol 2026.

Atodiad B – Nodiadau Cryno'r Gweithdy

B.1 Mae'r crynodeb canlynol yn cynnwys yr argymhellion a'r gofynion blaenoriaeth o drafodaethau chwech o'r gweithdai.

Gweithdy 1: Ysgogwyr Sgiliau Presennol a Dyfodol | Camau Gweithredu'r Llywodraeth

B.2 Fe wnaeth Gweithdy 1 dynnu sylw at gyflymder a chymhlethdod y newid sy'n effeithio ar anghenion sgiliau presennol a dyfodol Cymru. Nododd y cynrychiolwyr y galw cynyddol am sgiliau technoleg, arloesi, seiberddiogelwch, amddiffyn, gwyddor data a Deallusrwydd Artiffisial, ochr yn ochr â phryder am bwysau ar sgiliau craidd fel datrys problemau, creadigrwydd a chwilfrydedd. Tynnwyd sylw hefyd at bwysau gan weithlu sy'n heneiddio a newid demograffig, trawsnewid diwydiannol, gwahaniaethau rhanbarthol, mynediad gwledig, ansawdd prentisiaethau ac ansicrwydd ariannol, a phwysleisiwyd yr angen am ymyrraeth gynnar, cyfarwyddyd gyrfaoedd cryfach, dysgu gydol oes ac ailsgilio oedolion. O ran gweithredu'r llywodraeth, roedd mynychwyr y gweithdy'n galw am fframwaith cliriach a mwy cydgysylltiedig ar gyfer nodi ac ymateb i fylchau mewn sgiliau trwy bartneriaeth gymdeithasol. Roedd y cynrychiolwyr eisiau system symlach, cydweithredu cryfach rhwng y llywodraeth, cyflogwyr, darparwyr a'r trydydd sector, gwell cymorth i fusnesau bach a chanolig, a ffocws cryfach ar gadw a defnyddio sgiliau sydd eisoes yng Nghymru. Y neges drawsbynciol oedd bod angen gweithredu nawr, gydag ymatebion tymor byr, tymor canolig a thymor hir sy'n cysylltu deallusrwydd sgiliau cenedlaethol, cynllunio rhanbarthol a chyflawni lleol, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ddigon ystwyth i ymateb i anghenion dysgwyr, a chyflogwyr ac anghenion economaidd sy'n newid.

Gweithdy 2: Galw am Sgiliau a Llais y Cyflogwr | Camau Gweithredu Cyflogwyr

B.3 Argymhellwyd ymagwedd fwy ymatebol a chydweithredol at ddatblygu sgiliau, gyda'r llywodraeth, cyflogwyr a darparwyr addysg yn rhannu cyfrifoldeb am nodi anghenion sgiliau, buddsoddi a datblygu'r gweithlu. Fe wnaeth y gweithdy dynnu sylw at y datgysylltiad rhwng anghenion diwydiant sy'n newid a'r cyflymder y gall polisïau, cymwysterau a darpariaeth ymateb i'r newid, yn enwedig wrth i Ddeallusrwydd Artiffisial a newid technolegol ail-lunio'r farchnad lafur a chyfleoedd lefel mynediad. Galwodd cynrychiolwyr am well gwybodaeth am y farchnad lafur, cyfranogiad cryfach gan gyflogwyr wrth gynllunio'r gweithlu, a chydweithrediad agosach rhwng cyflogwyr, colegau a phrifysgolion. Hefyd nodwyd pa mor bwysig yw hwyluso gallu cyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant, cydnabod gwahanol allu busnesau bach a chanolig a sefydliadau mwy, ac ymchwilio i ddulliau wedi'u targedu o gyd-fuddsoddi. Y prif ofynion oedd gwrando ar gyflogwyr ac ymgysylltu â hwy yn fwy effeithiol; gwella deallusrwydd am y farchnad lafur a rhagolygon sgiliau yn y dyfodol; a darparu blaenoriaethau economaidd fesul sector sy'n fwy clir i lywio'r gwaith o gynllunio a buddsoddi mewn sgiliau.

Gweithdy 3: Cyflenwad Sgiliau ac Ymateboldeb Systemau | Camau Gweithredu Darparwyr

B.4 Argymhellwyd system sgiliau a chymwysterau mwy ymatebol a all ddal i fyny ag anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyflogwyr. Yn y gweithdy nodwyd oedi wrth ddatblygu cymwysterau, cyfyngiadau ar gyllid, bylchau mewn llwybrau lefel mynediad a chynnydd, a phwysigrwydd datblygu sgiliau craidd a throsglwyddadwy o'r ysgol i addysg bellach ac uwch a bywyd gwaith. Galwodd cynrychiolwyr am lwybrau galwedigaethol ac academaidd cliriach, gwybodaeth a chyfarwyddyd cryfach ar gyfer gyrfaoedd, profiad gwaith ystyrlon, a gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant. Roedd y drafodaeth yn pwysleisio adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus gyda chyflogwyr a darparwyr ac arfer da presennol. Y prif ofynion oedd cymwysterau hyblyg ac ymatebol; datblygiad cryfach o sgiliau craidd, gan gynnwys cyn 16 oed; llwybrau cliriach ar gyfer gyrfaoedd a chymwysterau; cydweithredu cryfach yn genedlaethol ac yn rhanbarthol; a pherchnogaeth gliriach ar gyfer adeiladu ar arferion effeithiol. Roedd y cynrychiolwyr eisiau symud o drafodaeth barhaus i weithredu amserol, gydag atebolrwydd cliriach am gyflawni.

Gweithdy 4: Ymatebion Partneriaethau Rhanbarthol a Lleol

B.5 Argymhellwyd ymatebion cryfach o ran partneriaethau rhanbarthol a lleol er mwyn gwella mynediad at sgiliau, dysgu gydol oes a dilyniant i waith. Fe wnaeth y gweithdy dynnu sylw at rwystrau sy'n wynebu dysgwyr dan anfantais, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, pobl ifanc yr effeithir arnynt gan dlodi neu hyder isel, oedolion sydd angen ailsgilio, a gweithwyr hŷn, gan gynnwys trafnidiaeth, costau, ymwybyddiaeth isel o gyfleoedd lleol a llwybrau aneglur. Pwysleisiodd y cynrychiolwyr bod angen gwell cysylltiadau rhwng ysgolion, addysg bellach ac uwch, cyflogwyr a diwydiant, profiad gwaith mwy ystyrlon, ymgysylltu cryfach â chyflogwyr, a gwybodaeth gliriach i ddysgwyr, teuluoedd a busnesau bach a chanolig. Yn y drafodaeth, tynnwyd sylw hefyd at rôl Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yr angen i leihau biwrocratiaeth, gwella hyblygrwydd cyllido, cefnogi micro-gymwysterau a throsglwyddo credydau, a gwneud gwell defnydd o gaffael cyhoeddus ac arweinyddiaeth y llywodraeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau. Un o'r prif ofynion i'w flaenoriaethu oedd chwalu seilos a chryfhau cydweithredu traws-sector ar draws rhanbarthau, gan ddwyn ynghyd ddarparwyr addysg, sefydliadau hyfforddi, cyflogwyr, cyrff cyhoeddus a chymunedau.

Gweithdy 5: Arweinyddiaeth Systemau, Llwybrau Dysgwyr a Diwygio

B.6 Argymhellwyd system sgiliau symlach a mwy cydlynol gyda llwybrau cliriach i ddysgwyr, rhieni, cyflogwyr a chynghorwyr. Yn y gweithdy, tynnwyd sylw at y ffaith y gall y system bresennol fod yn anodd ei llywio, yn enwedig i bobl ifanc nad ydynt yn dilyn llwybr academaidd traddodiadol ac i oedolion sy'n chwilio am ddysgu rhan-amser neu ddysgu hyblyg. Soniodd y mynychwyr hefyd fod angen gwneud llwybrau yn haws i deuluoedd a chymunedau eu deall, ac adeiladu ar enghreifftiau sydd eisoes yn gweithio mewn sectorau fel amaethyddiaeth, bwyd, iechyd ac adeiladu, a sicrhau y gall cyllid, staffio a diwygio cymwysterau gyfateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr ac anghenion technoleg sy'n newid. Pwysleisiwyd y canlynol - sgiliau a chymwysterau trosglwyddadwy, cymwysterau modiwlaidd a micro-gymwysterau, ynghyd ag ymgysylltiad cryfach â chyflogwyr mewn ysgolion, gwell profiad gwaith a phrofiad gwaith ehangach. Fe wnaeth y drafodaeth hefyd nodi'r angen am

gynllunio'r gweithlu yn well, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, dysgu rhyngwladol ar Ddeallusrwydd Artiffisial a thechnoleg, a strategaeth gliriach ar gyfer sgiliau cenedlaethol sy'n cyfateb i flaenoriaethau diwydiannol ac economaidd. Un o'r prif ofynion i'w flaenoriaethu oedd dull cyfunol ar draws y llywodraeth o ran sgiliau, a fyddai'n cynnwys rhannu cyfrifoldeb, blaenoriaethau cliriach a chyllid wedi'i alinio ar draws y llywodraeth.

Gweithdy 6: Gweledigaeth Sgiliau i Gymru 2035 | Gweledigaeth y Dyfodol a Blaenoriaethau Cenedlaethol

B.7 Roedd Gweithdy 6 yn galw am weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer Sgiliau i Gymru hyd at 2035, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth gryfach ar gyfer systemau, gwell cydgysylltu a llwybr symlach drwy'r ddarpariaeth bresennol. Roedd cynrychiolwyr yn dadlau nad oes gan Gymru ddiffyg gweithgarwch ond bod angen dod â gweithgarwch ynghyd i system fwy cydlynol, ystwyth a hygyrch. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys dysgu gydol oes, ailsgilio ac uwchsgilio trwy gydol bywyd gwaith; tystiolaeth unigol gryfach yn seiliedig ar anghenion sgiliau presennol ac yn y dyfodol; cyfeiriad cenedlaethol cliriach sy'n dal i adlewyrchu gwahaniaethau rhanbarthol; a chyfranogiad cryfach gan gyflogwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig. Rhoddodd y gweithdy bwyslais sylweddol ar y Gymraeg, gan gynnwys hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynnwys cyflogwyr ac ymwreiddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fyd addysg, hyfforddiant, cynllunio'r gweithlu a phenderfyniadau buddsoddi. Un o'r prif ofynion i'w flaenoriaethu oedd bod yn feiddgar: nodi beth yw nod Cymru erbyn 2035, dangos pa ffurf y dylai system sgiliau'r dyfodol ei gymryd, a datgan yn glir sut gall llywodraeth, cyflogwyr, darparwyr, unigolion a chymunedau gyrraedd y nod gyda'i gilydd.

Camau gweithredu cynnar a awgrymwyd ac a godwyd yn y nodiadau

B.8 Roedd y pwyntiau gweithredu cynnar a awgrymwyd yn cynnwys cynnal momentwm, ymgysylltu strwythuredig parhaus â rhanddeiliaid, cryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, adeiladu ar lwyddiannau presennol a'u cynyddu, ymgysylltu â dysgwyr yn gynharach trwy ysgolion, cydnabod datblygiad y blynyddoedd cynnar a dysgu seiliedig ar chwarae fel rhan o ddatblygu sgiliau craidd, diogelu capasiti'r gweithlu lle bo hynny'n bosibl, alinio polisi sgiliau â thwf economaidd, cryfhau cysylltiadau rhwng diwydiant ac addysg, cydnabod rôl y trydydd sector, ac adeiladu ar arfer da presennol ac adolygu gweithgarwch sy'n llai effeithiol.

Atodiad C – Sefydliadau a Gynrychiolir yn yr Uwchgynhadledd

C.1 Mae'r rhestr ganlynol yn seiliedig ar y sefydliadau a gofnodwyd yn fynychwyr yr Uwchgynhadledd.



Cynrychiolwyr yn Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol 2026.

- ACCA Cymru
- Grŵp ADS
- Addysg Oedolion Cymru
- Agored Cymru
- Airbus
- Aspire Systems
- Avril Lewis Consulting
- Prifysgol Bangor
- Barford Owen Davies
- BBC Wales / BBC Cymru
- Busnes mewn Ffocws / Rheoli Gwasanaeth Datblygu a Thwf (BDG) Busnes Cymru
- C&P Engineering Services Ltd
- Hyfforddiant Cambrian
- Coleg Caerdydd a'r Fro

- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Career Development Institute
- Gyrfa Cymru
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
- Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil Cymru
- Siambrau Cymru y De a'r Canolbarth
- Chwarae Cymru
- City & Guilds
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Coleg Sir Gâr
- Coleg y Cymoedd
- ColegauCymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Undeb Community
- Cydffederasiwn Menter Sweden
- Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
- Ymgynghorydd Cynaliadwyedd Adeiladu
- CSconnected
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- ECITB
- Equity
- Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB)
- Ffederasiwn y Meistri Adeiladu Cymru
- FinTech Wales
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
- GE Aerospace Wales
- Genpower
- GMB Union
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Great British Energy – Nuclear
- Grŵp Llandrillo Menai
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- ICAEW
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru
- ITSUS Consulting / Women in Cyber Unlimited
- iungo

- Jisc
- Learners
- Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Ledwood Mechanical Engineering Ltd
- Make UK
- Manufacturing Wales
- MediWales
- Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
- Mentrau Iaith Cymru Cyf
- Microsoft UK
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- National Federation of Roofing Contractors-SW
- Y Grid Cenedlaethol ccc
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- NFU Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Grŵp Colegau NPTC
- UCM Cymru / Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
- Pearson
- Pembrokeshire College / Coleg Sir Benfro
- Cyngor Sir Benfro
- PeopleCert
- Peter Lynn and Partners Solicitors
- Philtronics Limited
- Promo Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
- Rolls Royce
- Rolls-Royce SMR Cyf
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Safran Seats
- Sgil Cymru
- Shotton Mill Limited
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Abertawe
- Prifysgol Abertawe
- T. Richard Jones Ltd
- Talent Beyond Boundaries
- TechEd Programmes Ltd

- Coleg Merthyr Tudful
- Ystad y Goron
- Ymddiriedolaeth y Brenin
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Toyota Motor Manufacturing UK
- Trinity College Dublin
- TUC Cymru
- Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
- Unite The Union Cymru / Unite Cymru
- Prifysgolion Cymru
- Prifysgol De Cymru
- Urdd Gobaith Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- VodafoneThree
- VTCT Skills
- Watkins & Gunn
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- CBAC
- Woodknowledge Wales
- WorldSkills UK
- Prifysgol Wrecsam
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Atodiad D – Agenda

D.1 Roedd agenda'r Uwchgynhadledd yn cynnwys y prif sesiynau canlynol:

Amser	Sesiwn
09:15 - 09:45	Cyrraedd a rhwydweithio
09:45 - 10:10	Gair o groeso a sylwadau agoriadol
10:10 - 10:30	Cyflwyniad y Sefydliad Dysgu a Gwaith
10:30 - 11:20	Trafodaeth: Tirwedd sgiliau Cymru yn y dyfodol
11:40 - 12:30	Trafodaethau gweithdy: blaenoriaethau a heriau a rennir
13:20 - 13:45	Sgiliau ar gyfer Twf – safbwynt rhyngwladol
13:45 - 14:35	Trafodaethau gweithdy: ymatebion ymarferol a'r camau nesaf
14:55 - 15:45	Trafodaeth: themâu allweddol a'r camau nesaf
15:45 - 16:00	Sylwadau i gloi

D.2 Darparwyd yr agenda lawn, gan gynnwys seibiannau a chinio, i gynrychiolwyr ymlaen llaw fel rhan o Becyn Cynrychiolwyr Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Uwchgynhadledd Sgiliau'r Dyfodol a cham nesaf y gwaith, cysylltwch â **UwchgynhadleddSgiliaurDyfodol@llyw.cymru**.